NASUWT CYMRU
Undeb yr Athrawon The Teachers' Union

BWLETIN

Asbestos mewn Rhwyllau Gwifrog

Mae'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) wedi cyhoeddi rhybudd bod rhwyllau gwifrog metel sy'n cynnwys asbestos wedi cyrraedd ysgolion yn y Deyrnas Unedig drwy ddau gyflenwr. Mae'r rhain yn eitemau a ddefnyddir gyda llosgyddion Bunsen mewn arbrofion gwyddonol.

Ar hyn o bryd, nid yw HSE wedi datgelu enwau'r cyflenwyr dan sylw eto.

Mae'r Consortiwm Awdurdodau Addysg Lleol ar gyfer Darparu Gwasanaethau Gwyddonol (CLEAPSS) ac HSE wedi cyhoeddi cyfarwyddyd ar y ffordd y dylai ysgolion ymdrin â'r broblem hon. Mae'r cyfarwyddyd ar gael i bob ysgol, p'un a ydynt yn aelodau ai peidio: http://science.cleapss.org.uk/Resource/GL286-FAQs-regarding-asbestos-in-gauzes.pdf ac http://science.cleapss.org.uk/Resource/HSE-ADVICE-TO-USERS-OF-BUNSEN-BURNER-WIRE-GAUZES-THAT-MAY-CONTAIN-ASBESTOS.pdf.

Er nad yw CLEAPSS yn gweithredu yn yr Alban, mae'r Scottish Schools Education Research Centre (SSERC) wedi cyhoeddi cyfarwyddyd sylfaenol yn unig. Felly, mae NASUWT yn argymell yn gryf y dylai ysgolion yn yr Alban ddilyn cyngor CLEAPSS yn y sefyllfa hon. Yn yr un modd, nid yw Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Gogledd Iwerddon (HSENI) wedi cyhoeddi unrhyw gyfarwyddyd, felly dylai ysgolion yng Ngogledd Iwerddon ddilyn cyngor HSE. Dylai ysgolion ar Ynys Jersey, Ynys y Garn, Ynys Manaw ac yn Gibraltar ddilyn cyngor CLEAPSS hefyd.

Mae NASUWT yn argymell y dylai prifathrawon/penaethiaid gymryd y camau gweithredu dilynol:

- Sicrhau bod Pennaeth yr Adran Gwyddorau'n ymwybodol o'r cyfarwyddyd a roddwyd gan HSE a CLEAPSS.
- Dylid ystyried unrhyw rwyllau gwifrog a brynwyd ar ôl 1976 yn amheus heblaw bod y cyflenwr yn gallu darparu'r dystysgrif gan **gorff profi yn y DU sydd wedi'i achredu gan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS)** sy'n ardystio bod y rhwyllau gwifrog yn rhydd o asbestos.
- Peidiwch â defnyddio rhwyllau gwifrog amheus.
- Rhaid peidio â gofyn i athrawon wneud y gwaith o dynnu rhwyllau gwifrog amheus, a dylent ond wneud hynny os ydynt yn gymwys. Yn unol â chyngor CLEAPSS, os nad oes unrhyw unigolyn/unigolion cymwys ar y safle, yna dylid defnyddio contractwr arbenigol sy'n gwaredu asbestos.
- Os oes unigolyn/unigolion cymwys ar gael, dylent waredu'r rhwyllau gwifrog o fewn y cynhwysydd y maent wedi'u storio ynddo, lle bo modd, fel nad ydynt yn trin y rhwyllau gwifrog unigol ymhellach. Dylid trin y cynhwysydd a'r rhwyllau gwifrog fel gwastraff sy'n cynnwys asbestos. Os nad yw hynny'n bosibl, dylid gwlychu'r rhwyllau gwifrog yn ofalus gan ddefnyddio potel chwistrellu a ddaliwch yn y llaw sy'n cynnwys dŵr ac ychydig bach o lanedydd (e.e. hylif golchi llestri) a'i drin yn ofalus i osgoi unrhyw niwed pellach. Dylid glanhau unrhyw ardaloedd lle cawsent eu storio, ac unrhyw offer y cawsent eu storio â nhw, gan ddilyn canllawiau HSE.

Parhad drosodd

- Mae'n rhaid gwaredu'r rhwyllau gwifrog fel gwastraff peryglus, ynghyd ag unrhyw ddefnyddiau a ddefnyddiwyd i lanhau mannau/offer a allai fod wedi'u halogi.

Wrth brynu rhwyllau gwifrog newydd, dylai ysgolion geisio cadarnhad gan eu cyflenwyr bod y gadwyn gyflenwi'n ddiogel ac nad yw'r rhwyllau gwifrog newydd yn cynnwys unrhyw lefel o asbestos. Yr unig ffordd bendant o sicrhau hyn yw bod eitemau sy'n deillio o'r tu allan i'r UE yn cael eu dadansoddi gan labordy sydd wedi'i achredu i ganfod asbestos gan UKAS. Dylai ysgolion ofyn i'r cyflenwr am gopi o dystysgrif prawf ddilys UKAS ar gyfer y rhwyll wifrog.

Mae NASUWT wedi ysgrifennu at Weinidogion ledled y DU i dynnu eu sylw at ddifrifoldeb y sefyllfa hon ac i ofyn iddynt ddarparu cymorth a chyngor ar frys i ysgolion, gan gynnwys ystyried y costau posibl i'r ysgol wrth ymdrin â gwarediad arbenigol yr asbestos.

Mae'r Undeb wedi gofyn hefyd bod enwau'r cyflenwyr yn cael eu cyhoeddi ar unwaith, er mwyn galluogi i ysgolion ganfod ar unwaith a ydynt wedi defnyddio'r cyflenwyr hynny a thawelu meddwl eu staff, eu disgyblion a'u rhieni naill ai nad oes unrhyw broblemau yn yr ysgol neu bod camau'n cael eu cymryd i weithredu.

Dylid cysylltu ar unwaith â NASUWT os oes angen rhagor o gyngor. Os oes unrhyw athro/athrawes wedi dod i gysylltiad ag asbestos, dylent gofnodi hynny gyda'u meddyg teulu gynted ag y gallent. Gall aelodau NASUWT hefyd ddefnyddio cofrestr NASUWT, sy'n cael ei chadw gan Gyfreithwyr Thompsons. Gall aelodau gysylltu â Chyfreithwyr Thompsons ar 0808 100 2221 a dylent gofnodi eu cysylltiad ag asbestos ar y gofrestr hon.

"siaradwch â ni"

029 2054 6080
E-bost: rc-wales-cymru@mail.nasuwt.org.uk
Gwefan: www.nasuwt.org.uk

Aelodaeth AM DDIM

DEWCH I YMUNO Â NASUWT CYMRU HEDDIW

aelodaeth am ddim am y flwyddyn gyntaf o'r dyddiad yr ymunwch â ni*

Ar-lein ar www.nasuwt.org.uk neu ar y ffôn ar 03330 145550

Ydych chi'n aelod yn barod?

Bydd pob aelod sy'n gwahodd athrawon eraill yn llwyddiannus i ymuno â nhw yn NASUWT yn derbyn **tocynnau rhodd Love2shop hael.**

Y cwbl sydd ei angen yw rhoi eich enw a'ch rhif aelodaeth iddynt i'w nodi pan fyddent yn ymuno.

*Bydd aelodau newydd sy'n ymuno â NASUWT yn cael y flwyddyn gyntaf am ddim pan ddewisant dalu eu tanysgrifiad drwy ddebyd uniongyrchol yn y dyfodol.

GWAHODDWCH FFRIND I YMUNO Â NI